TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Agored Cymru Award in British Sign Language Level Entry 3

Yn gryno Os hoffech chi weithio gyda phobl â nam ar eu clyw neu os ydych yn diddori mewn dysgu ffordd wahanol o gyfathrebu, mae'r cwrs hwn yn gyflwyniad rhagorol i iaith arwyddion.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...unrhyw un sy'n diddori mewn dysgu iaith arwyddion

Cynnwys y cwrs Yn ogystal â bod yn awyddus i ddysgu iaith newydd, bydd angen i chi ymrwymo'n llwyr i fynychu yn ogystal â pharchu eraill a gallu gweithio'n annibynnol neu fel rhan o dîm.

Byddwch yn astudio dwy uned orfodol ar yr un pryd dros 10 wythnos, ac yn dysgu defnyddio a deall Iaith Arwyddion Prydain:

Deall Iaith Arwyddion Prydain
Defnyddio Iaith Arwyddion Prydain Byddwch yn cael eich asesu drwy sesiynau ymarferol yn yr

ystafell ddosbarth, arddangosiadau a phortffolio o dystiolaeth a thystiolaeth fideo, gydag asesiadau wedi'u cynllunio i gyd-fynd â'ch dymuniadau o ran tasgau unigol byr neu rai sy'n cyfuno nifer o feini prawf. Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill Gwobr Lefel Mynediad Agored Cymru mewn Iaith Arwyddion Prydain.

Gofynion Mynediad Nid oes unrhyw ofynion ffurfiol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Ar ôl y cwrs hwn, gallech symud ymlaen i gymhwyster Lefel 1 priodol